**ADOLYGIAD O DREFNIADAU CYMUNEDOL RHONDDA CYNON TAF**

**CYLCH GORCHWYL**


Rhagarweiniad..........................................................................................2

Pam ydyn ni'n cynnal yr adolygiad yma?............................................... 2

Beth yw nod yr adolygiad?..................................................................... 2

Yr hyn y mae modd ei drafod yn rhan o'r adolygiad yma........................2

Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad yma?.................................................. 2

Ymgynghoriadau a Chyflwyniadau Cyhoeddus.......................................3

Polisi Maint y Cyngor...............................................................................3

Polisi Enwau Cymraeg…………………………….............................4

Amserlen yr adolygiad.............................................................................4

Gwybodaeth Ategol..................................................................................4

**Rhagarweiniad**

Y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu adolygiadau o drefniadau cymunedol yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf). O dan y Ddeddf, mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru. Serch hynny, mae gan bob Prif Gyngor ddyletswydd i fonitro'r cymunedau yn ei ardal, a lle bo'n briodol, trefniadau etholiadol cymunedau o'r fath at ddibenion ystyried a ddylid gwneud neu argymell newidiadau. Caiff y newidiadau yma eu cyflwyno trwy adolygiadau ffiniau cymunedol ac adolygiadau etholiadol cymunedol.

Mae'r Prif Gyngor (y Cyngor) yn cynnal adolygiad o'i drefniadau cymunedol. Mae'r adolygiad yma'n cael ei gynnal o dan adran 25 o'r Ddeddf, sy'n ymdrin â'r newidiadau i ffiniau ac unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

Cam cyntaf yr adolygiad yw gofyn i bawb sydd â diddordeb i ystyried y ffiniau cymunedol presennol a chyflwyno eu barn ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i greu cymunedau sy'n darparu ar gyfer llywodraethu effeithiol a chyfleus ar lefel leol. Yna bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried, a bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft ac yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion hynny. Yna bydd pob cyflwyniad yn cael ei ystyried, a bydd Cynigion Terfynol yn cael eu cyflwyno i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Yna, os yw'n briodol, bydd y Comisiwn yn rhoi'r argymhellion yma ar waith, naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Mai 2024 a bydd argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'w mabwysiadu ym mis Mawrth 2025.

**Pam ydyn ni'n cynnal yr adolygiad yma?**
Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu'r trefniadau cymunedol ledled ardal y Prif Gyngor ac i adrodd i'r Comisiwn ar eu trefniadau cymunedol bob deng mlynedd. Nod hyn yw sicrhau bod cymunedau yn parhau i adlewyrchu hunaniaeth leol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

**Beth yw nod yr adolygiad?**
Nod y Cyngor yw sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r cymunedau ledled ardal y Prif Gyngor a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus.

Yn rhan o'r adolygiad, bydd y Cyngor yn ystyried:

- creu, diddymu neu uno cymunedau a wardiau cymunedol
- enw'r gymuned a, lle mae wardiau, enw'r wardiau cymunedol
- lle mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau cymunedau neu wardiau cymunedol, nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r gymuned a, lle mae wardiau, nifer y cynghorwyr fesul ward
- y wardiau sydd wedi'u gwrthwynebu a'r rhai sydd heb eu gwrthwynebu mewn etholiadau cyngor cymuned yn ddiweddar

**Yr hyn y mae modd ei drafod yn rhan o'r adolygiad yma?**
Bydd yr adolygiad yma'n edrych ar y ffiniau cymunedol ledled ardal y Prif Gyngor. Dim ond o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffiniau cymunedol y bydd unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau yn cael eu hystyried.

**Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad yma?**
Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr adolygiad o dan adran 25 o'r Ddeddf. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd y Cyngor yn cyflwyno argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Yna, os yw'n briodol, bydd y Comisiwn yn rhoi'r argymhellion yma ar waith, naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau.

**Ymgynghoriadau a chyflwyniadau cyhoeddus**
Wrth gynnal yr adolygiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau y gwêl orau i sicrhau bod personau a allai fod â diddordeb yn yr adolygiad yn cael gwybod am yr adolygiad ac yn cael gwybod am unrhyw gynigion neu argymhellion drafft. Yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i gyflawni'r dyletswyddau yma drwy ysgrifennu at:

- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- Y Cynghorau Tref a Chymuned ledled ardal y Prif Gyngor;
- Aelodau o'r Senedd sy'n cynrychioli'r ardal;
- Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal;
- Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal;
- Aelodau Etholedig;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru;
- Comisiynydd y Gymraeg;
- Llywodraeth Cymru;
- Undebau Llafur; ac
- Arolwg Ordnans

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi hysbysiad swyddogol ar wahanol gamau o'r adolygiad, yn rhoi copïau o adroddiadau a dogfennau yn Swyddfa Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor ac yn rhoi copïau o ddogfennau priodol ar wefan y Cyngor.

Mae croeso i bobl gyflwyno sylwadau yn ystod dau gam o'r adolygiad, sef yr ymchwiliad cychwynnol a'r ymgynghoriad ar y cynigion drafft.

Bydd pob sylw a chyflwyniad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn rhan o'r adolygiad:

- Sylwadau a dderbynnir erbyn 11.59pm o'r dyddiad cau, yn ôl yr amserlen.
- Bydd yr holl sylwadau yn cynnwys enw a chyfeiriad i adnabod yr anfonwr. Ni fydd cyflwyniadau di-enw yn cael eu derbyn, er na fydd manylion personol y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd cyflwyniadau oddi wrth gyrff cynrychioli a phobl megis Cynghorwyr ac Aelodau o'r Senedd yn cael eu henwi yn yr adroddiad.
- Pan fo sefydliad neu unigolyn yn gwneud cyflwyniadau ynghylch yr adolygiad, byddan nhw'n dangos sut mae naill ai cynnal y sefyllfa bresennol neu wneud newidiadau yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

***Polisi Maint Cyngor***
Bydd adolygiad cymunedol y Cynghorau yn cael ei gynnal yn amodol ar adran 25 o'r Ddeddf ac felly bydd yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i ffiniau er mwyn sicrhau bod ffiniau cymunedol yn adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau cymunedau ardal y Prif Gyngor, a'u bod yn effeithiol ac yn gyfleus. Dim ond pan fydd newidiadau i ffiniau cymunedol neu wardiau cymunedol wedi'u gwneud y bydd unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol yn cael eu gwneud.

Mae'r Cyngor wedi datgan y dylai cymunedau gael eu cynrychioli gan ddim llai na 7 cynghorydd. Ni ddylai fod gan ardaloedd Cynghorau Cymuned lai na chyfanswm o 700 o etholwyr (h.y. cyfanswm y wardiau cymunedol yn ardal y cyngor tref/cyngor cymuned hwnnw);

Mae'r Prif Gyngor hefyd wedi datgan y dylai wardiau cymunedol gynnwys dim llai na 250 o etholwyr, a'r cymarebau cynghorwyr i etholwyr yw:

- lleiafswm o 1 : 500 ar gyfer ardaloedd trefol, a
- lleiafswm o 1 : 250 ar gyfer ardaloedd gwledig/cymysg;

**Polisi Enwau Cymraeg**

Wrth greu unrhyw enwau newydd, bydd y Cyngor yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ymgynnull Panel Safoni Enwau Lleoedd i ddarparu argymhellion a chyngor arbenigol yn y maes yma. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Panel yn dilyn canllawiau safoni cenedlaethol a hefyd yn ystyried ystyr, hanes a geirdarddiad enwau lleoedd, yn ogystal â'u defnydd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai gorfodol yn yr adolygiad.

**Amserlen yr adolygiad**

Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Ebrill 2024 a bydd argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2025. Byddai unrhyw newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r broses adolygu wedyn yn dod i rym ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2027.

| **Cam gweithredu** | **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Dechrau'r adolygiad a chyhoeddusrwydd cychwynnol | | Mai 2024 |
| Ymchwiliadau cychwynnol | 6 Wythnos | Gorffennaf 2024 – Awst 2024 |
| Cyhoeddiad/ymgynghori ar gynigion drafft | 6 Wythnos | Tachwedd 2024 – Rhagfyr 2024 |
| Cyflwyno'r argymhellion terfynol | | Mawrth 2025 |

**Gwybodaeth Ategol**

Mae rhagor o wybodaeth am yr adolygiad, gan gynnwys ffigurau etholwyr, map o'r ffiniau cymunedol presennol a chanllawiau, ar gael ar wefan y Cyngor.